Teitl y Swydd: **Cydlynydd Academaidd 1**

## CYFATHREBU

### Cyfathrebu ar lafar
Derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth syml yn rheolaidd mewn ffordd glir a chywir.

Derbyn, deall a chyfleu gwybodaeth yn rheolaidd sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Derbyn, deall a chyfleu syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhleth yn rheolaidd, a all fod yn hynod o fanwl, yn dechnegol neu yn arbenigol.

### Cyfathrebu Ysgrifenedig
Derbyn, deall a throsglwyddo gwybodaeth syml yn rheolaidd mewn ffordd glir a chywir.

Derbyn, deall a chyfleu gwybodaeth yn rheolaidd sydd angen esboniad neu ddadansoddiad gofalus i helpu eraill i'w deall, gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd i'w gyfathrebu a'r ffordd orau i drosglwyddo'r wybodaeth i eraill.

Derbyn, deall a chyfleu syniadau cysyniadol cymhleth neu wybodaeth gymhleth yn rheolaidd, a all fod yn hynod o fanwl, yn dechnegol neu yn arbenigol.

## GWAITH TÎM AC YSGOGI

### Gofynion ymhlyg:
Gweithio mewn tîm a chyfrannu ato.

### Prif ffocws
Cefnogi ac annog eraill yn y tîm; helpu i adeiladu cydweithrediad drwy osod esiampl a dangos agwedd hyblyg at gyflawni canlyniadau tîm; cyfrannu at adeiladu ysbryd y tîm fel aelod gweithgar o'r tîm.

### Ffocws eilaidd
Egluro'r gofynion; cytuno ar amcanion tasg clir; trefnu a dirprwyo gwaith yn deg yn ôl galluoedd unigol; helpu'r tîm i ganolbwyntio eu hymdrechion ar y dasg dan sylw a chymell aelodau unigol o'r tîm.

Yn achlysurol, llunio a chyflwyno gweledigaeth glir o'r hyn sydd i'w gyflawni'n gyffredinol gan dîm; annog unigolion i gyfrannu at y nod cyffredin hwn hyd orau eu gallu; creu ymdeimlad o undod a phwrpas cyffredin.

## CYSYLLTU A RHWYDWEITHIO

Cysylltu arferol o ddydd i ddydd gan ddefnyddio dulliau gweithredu sydd ar gael eisoes er mwyn dylanwadu ar ddigwyddiadau neu benderfyniadau; ac ymgymryd â gweithgareddau cydweithio er mwyn dilyn diddordeb a rennir.

Cymryd rhan mewn rhwydweithiau o fewn y sefydliad neu'n allanol er mwyn dylanwadu ar ddigwyddiadau neu benderfyniadau; ac ymgymryd â gweithgareddau cydweithio er mwyn dilyn diddordeb a rennir.

Sefydlu, adeiladu neu arwain rhwydweithiau mewnol; cynnal cysylltiadau dros amser; sefydlu sianelau cyfathrebu i chi eich hun ac eraill i'w defnyddio er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y ffurf briodol i'r bobl briodol ar yr adeg briodol; creu cysylltiadau i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth yn y dyfodol.

Sefydlu, datblygu neu arwain rhwydweithiau allanol, er mwyn sicrhau y lledaenir gwybodaeth yn y ffurf briodol i'r bobl briodol ar yr adeg briodol; creu cysylltiadau er hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth yn y dyfodol.

## DARPARU GWASANAETH

### Gofynion ymhlyg

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol sy'n gofyn am wasanaeth neu sydd eisiau gwybodaeth; creu delwedd gadarnhaol o'r sefydliad trwy ymateb yn brydlon i geisiadau a chyfeirio'r defnyddiwr at yr unigolyn priodol os oes angen.  Y cwsmer sy'n cysylltu fel rheol a rhan amlaf mae'n ymwneud â thasgau arferol gyda safonau neu ddulliau gweithredu penodol.

### Prif ffocws

Delio â chysylltiadau mewnol neu allanol lle mae'r gwasanaeth fel rheol yn cael ei ddechrau gan ddeiliad y swydd, gan weithio o fewn gweithdrefnau neu bolisïau cyffredinol y sefydliad; A / NEU deall ac archwilio anghenion y cwsmer; addasu'r gwasanaeth yn unol â hynny er mwyn sicrhau defnyddioldeb neu addasrwydd a safon y gwasanaeth.

## PROSESAU GWNEUD PENDERFYNIAD

Gwneud penderfyniadau annibynnol, a all bara am beth amser ac effeithio'n bennaf ar y tîm gwaith.

Bod â rhan mewn rhai penderfyniadau ar y cyd, a fydd yn cael effaith gyfyngedig, ac a all bara am beth amser.

Darparu cyngor neu fewnbwn i gyfrannu at benderfyniadau pobl eraill, sy'n bellgyrhaeddol, yn gymhleth ac yn para'n hir ac a fydd yn cael effaith sylweddol.

## CYNLLUNIO A THREFNU ADNODDAU

### Gofynion ymhlyg

Cwblhau tasgau yn ôl cynllun a roddir a chydag adnoddau a bennir.

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu eich gwaith neu adnoddau eich hun i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

### Prif ffocws

Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu eu gwaith neu eu hadnoddau eu hunain ac eraill yn eu maes eu hunain yn ddyddiol, yn wythnosol neu yn fisol; cynllunio a rheoli projectau bach, gan sicrhau y defnyddir adnoddau'n effeithiol; derbyn gwybodaeth gan bobl eraill a chyflenwi gwybodaeth iddynt er mwyn cwblhau eu cynllunio; monitro cynnydd yn erbyn y cynllun.